

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Archwilio held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at
2.00 pm

PRESENT: County Councillor P White (Chairman)
County Councillor J. Higginson (Vice Chairman)

County Councillors: A. Easson, M. Feakins, M. Lane, P. Murphy and
B. Strong

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Mark Howcroft	Pennaeth Cynorthwyol Cyllid
Andrew Wathan	Prif Archwilydd Mewnol
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Emma Davies	Swyddog Perfformiad
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad
Lesley Russell	Senior Accountant - Fixed Assets and Treasury
Rhodri Davies (WAO)	Arweinydd Tîm Swyddfa Archwilio Cymru
David Jarrett	Accountant

APOLOGIES:

County Councillors P. Clarke, V. Smith and J. Watkins

1. Datganiadau o Fuddiant

Eitem 8: Cyfrifon Archwilledig Cronfa Deddf Eglwys Cymru Cyngor Sir Fynwy – Datganodd y Cynghorydd Sir B. Strong diddordeb personol, diragfarn fel Aelod o Banel Cronfa Eglwys Cymru ar gyfer Sir Fynwy.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. I nodi Rhestr Weithred y cyfarfod diwethaf

Darparir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad chwarter nesaf ym mis Ionawr ynglŷn â datblygiad barn sicrwydd cyfyngedig yr archwiliad mewnol anffafriol a roddwyd i Ysgol Gynradd Castle Park.

Darparir diweddariad o ddatblygiad yr arfarniad staff yn y cyfarfod nesaf.

4. Trosolwg o Drefniadau Rheoli Perfformiad

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad adroddiad er mwyn hysbysu dealltwriaeth Aelodau ynglŷn ag effeithiolrwydd gweithredu trefniadau rheoli perfformiad yr awdurdod ac er mwyn nodi unrhyw feysydd lle'r ydynt yn teimlo bod angen cymryd camau neu ddarparu gwybodaeth bellach.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Archwilio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at 2.00 pm

Croesawyd cwestiynau a sylwadau, fel a ganlyn:

- Nodwyd bod yna dwy farn "dda", gyda'r gweddill wedi'u categorio fel "digonol", ac ymholwyd ynglŷn â maint o waith y bydd ei angen er mwyn gwella o ddigonol i dda.
- Esboniwyd bod gwasanaethau wedi'u cefnogi gan fframwaith er mwyn gwella. Rhaid gweithredu'r fframwaith yn effeithiol ac yn gyson er mwyn codi i sgôr uwch. Nodwyd bod Cynlluniau Gwella yn cael eu cyflwyno'n hwyr o bryd i'w gilydd, gan nodi bod Cabinet yn dibynnu ar y cynlluniau er mwyn monitro perfformiad. Cadarnhawyd bod y gweddill yn cael eu danfon pan fod cynlluniau'n hwyr. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod cynlluniau'n ddarostyngedig i broses arfarniad er mwyn gwerthuso, cynnig adborth a gwella ansawdd.
- Nodwyd y Cadeirydd yr ystyrir prosesau Hunanwerthuso fel "digonol". Esboniwyd bod Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gosod proses hunanasesu'r flwyddyn hon sy'n edrych ar amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol a osodwyd yn 2017/18 ac sy'n ystyried sut ydym yn gweithio tuag atynt a thuag at amcanion llesiant. Ers hynny, adroddwyd ynglŷn ag amcanion 2018/19, a chawsant eu newid ychydig. Mae ychydig o'r adborth yn parhau.

Cytunwyd nodi'r argymhellion.

5. Pwyllgor Archwilio: Hunanarfarnu

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr angen i asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio ei hun trwy broses hunanasesu (a gyflawnwyd diwethaf yn 2015) yn seiliedig ar arferion da ac wedi'i gefnogi gan CIPFA. Mae'r asesiad yn cwmpasu saith thema:

- Rheolau a chyfrifoldebau
- Monitro a throsolwg
- Perthnasau a disgwyliadau gydag archwiliad allanol
- Perthnasau a disgwyliadau gydag archwiliad mewnol
- Aelodaeth i'r Pwyllgor
- Cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio
- Sgiliau a hyfforddi aelodau

Ei fwriad yw cyflwyno ffurflen arolwg i aelodau'r pwyllgor. Caiff y canlyniadau eu cyfuno gyda chyfle i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

6. Adroddiad Trysorlys Canol Blwyddyn

Cyflwynodd yr Uwch Gyfrifydd, Y Trysorlys ac Asedau Sefydlog yr Adroddiad Canol flwyddyn, oedd wedi'i grynodi fel a ganlyn:

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dempled a ddarparir gan Arlingclose, cynghorwyr Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ac sydd wedi'i lunio'n benodol ar gyfer Cyngor Sir Fynwy.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â Chod Rheoli Trysorlys y CIPFA sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn cymeradwyo adroddiadau rheoli'r trysorlys pob blwyddyn a hanner blwyddyn ac ei fod yn rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio enillion ychwanegol.

Mae'r Cod Darbodus yn ei gwneud yn ofynnol bod gan yr Awdurdod Strategaeth Gyfalaf wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn, sy'n gosod y ffordd orau i gwrdd ag ystod eang o amcanion

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Archwilio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at 2.00 pm

bod gan yr Awdurdod gydag adnoddau cyfalaf cyfyngedig. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cyngor ar y 19^{eg} o Fedi 2019 a chaiff ei ddiweddarau'n flynyddol.

Mae Cod Rheoli'r Trysorlys nawr yn cwmpasu buddsoddiadau heblaw trysorlys yn ogystal â buddsoddiadau trysorlys sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau'n dangos sut ydynt yn darparu diwydrwydd dyladwy yn yr un modd a'u bod yn ei wneud am fuddsoddiadau Trysorlys. Nid yw'r Awdurdod wedi cynyddu ei ddaliad o fuddsoddiadau heblaw trysorlys yn hanner cyntaf 2019/20 ond mae'n dal yn edrych i wario balans llawn y £50m cymeradwy erbyn diwedd 2020/21.

Mae yna wedi bod ansicrwydd economaidd yn 6 mis cyntaf 2019/20 gyda 6 mis ychwanegol yn debygol oherwydd estyniad dyddiad Brexit ac economi sy'n arafu yn Ewrop. Mae gwleidyddiaeth dramor hefyd wedi parhau i fod yn yrrwr mawr o farchnadoedd ariannol, er enghraifft gyda thensiynau parhaol rhwng yr UD a Tsieina. Cynhaliodd Banc Lloegr cyfraddau o 0.75% er mwyn cefnogi'r economi.

Cwmpodd cyfraddau llog gilt yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd hwn felly cymrodd yr Awdurdod fenthyciad hirdymor o £7m er mwyn sicrhau ychydig o fuddiant hirdymor o'r cyfraddau isel hyn, penderfyniad da wrth edrych yn ôl oherwydd codwyd cyfraddau PWLB gan 1% yn Hydref 2019.

Ar yr 31^{ain} o Fawrth 2019 roedd gan yr Awdurdod Gofyniad Cyllid Cyfalaf benthycio o £183.9m a benthyciad allanol crynswth o £178.3m. Cododd benthycio crynswth ychydig i £180.1m yn y 6 mis hyd at y 30^{ain} o Fedi ond cwmpodd benthycio net o £158.0 i £148.9m oherwydd cynnydd byrdymor mewn buddsoddiadau.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddal lleiafswm o £10m o fuddsoddiadau i gwrdd â gofyniadau cleient proffesiynol dan y rheoliadau Mifid II (Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol). Mae'r buddsoddiad mewn cronfeydd cyfun strategol nawr wedi codi o £2m i £3m. Mae'r cronfeydd hyn wedi dychwelyd incwm o £63,000 yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn. Caiff colledion cyfalaf o £45,000 gan gynnwys £39,000 untro eu hamsugno gan y gwarged a ddelir yng nghronfa ailbrisió'r Offerynnau Ariannol. Mae'r Awdurdod yn rhagweld arbediad o £243,000 ar gyfer 2019/20 ym meysydd llog taladwy a llog derbyniadwy yn erbyn cyfanswm cyllideb net o £4.0m.

Croesawyd cwestiynau a sylwadau, cawsant eu hateb fel a ganlyn:

Deallodd y Pwyllgor Archwilio y bydd benthycio hirdymor yn y dyfodol oddi wrth Fwrdd Benthyciadau'r Gweithiau Cyhoeddus (PWLB) yn fwy drud. Ystyriwyd bod y lefel fenthycio ar hyn o bryd yn gynaladwy. Ceisiodd Aelod eglurdeb ynglŷn â benthycio am brosiectau penodol, a chadarnhawyd nad yw'r awdurdod yn benthycio am brosiectau penodol ond yn hytrach er mwyn cynnal lefelau arian i alluogi'r Awdurdod i wneud unrhyw daliadau sydd eu hangen. Wrth ddadansoddi proffidioldeb buddsoddiadau eiddo mawr diweddar, ystyrir y cyfraddau benthycio sydd ar gael ar yr adeg honno, a chost y benthycio y buasai ei angen os oedd y prosiect yn cael ei weithredu ar ei ben ei hun sydd wedi'i osod i mewn i ragolwg elw ar gyfer bywyd y prosiect. Ychwanegwyd bod y tîm trysorlys yn gwerthuso'r cyfanswm a'r benthycio sydd eu hangen er mwyn bod yr Awdurdod cyfan yn cynnal llif arian, ac yna'n nodi'r dull mwyaf addas o ennill cyllid wrth ystyried unrhyw gyfle am fenthycio mewnol e.e. oherwydd derbyniadau cyfalaf, er mwyn lleihau costau benthycio.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y gyfradd llog ar y mwyafrif o fenthyciadau PWLB yr awdurdod wedi'u sefydlu ar y diwrnod am gyfnod cyfan y benthyciad. Yn y gorffennol, mae'r

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Archwilio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at 2.00 pm

Awdurdod wedi cymryd un benthyciad cyfradd amrywiol ar y tro yn unig, ac roedd hyn yn fuddiol oherwydd y cyfraddau a gynigwyd gan y PWLB ar yr adeg honno.

Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â'r buddsoddiad Fferm Solar, os yw hi wedi'i dibrisio dros y tymor ugain mlynedd, a chadarnhawyd bod y Tîm Ystadau'n prisio pob ased yn flynyddol. Rhagwelir bod y Fferm Solar yn cynnal ei gwerth sy'n seiliedig ar ei botensial ar gyfer cynhyrchu incwm. Mewn perthynas ag asedau masnachol, rhoir ystyriaeth i pam mor hir y bydd yr ased yn para ac mae yna egwyddor i beidio cymryd cyllid llog am gyfnod mwy na bywyd disgwylidig yr ased.

Cyfeiriodd Aelod at ddylanwadau allanol, yn enwedig y tensiynau rhwng yr UD a Tsieina, a gofynnodd sut y bydd esblygiad yr economi byd eang yn effeithio buddsoddiad. Cytunwyd taw amser anodd ac anrhagweladwy yw hwn a bod yr Awdurdod yn dibynnu ar ragolygon a chynngor o'i Gynghorwyr Trysorlys.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod wedi bod nifer o newidiadau i reoliad banciau ers gwmpas banciau Gwlad yr Iâ, er mwyn lliniaru problemau yn y dyfodol, bod rhaid i fanciau cydymffurfio â nhw. Hefyd, mae arallgyfeirio buddsoddiadau'n allweddol yn ôl gwasgaru'r risg. Mae rôl y Pwyllgor mewn archwilio strategaeth y trysorlys yn allweddol wrth asesu ffactorau risg.

Gofynnodd Aelod a yw'r awdurdod yn pennu cyfradd A triphlyg, a gofynnodd, os oedd Llywodraeth Prydain yn cael ei israddio, a fydd asedau'n cael eu symud o gwmpas. Esboniwyd taw ffactor ganolog mewn lleihau risg yw sicrhau bod gwrthbartïon wedi'u graddio A- neu uwch gan ychwanegu bod Arlingclose yn cynnig cyngor ychwanegol ynglŷn â chryfder gwrthbartïon sy'n cael ei ddilyn yn agos.

Ceisiodd Aelod eglurhad ynglŷn â cholledion cyfalaf o £45,000 oherwydd cynnig bid ar wasgar a sylwebodd na fydd y golled yn crisialu nes y caiff ei werthu ac awgrymodd efallai bod y datganiad yn agored i'w gamddehongli. Cytunwyd â'r pwynt hwn. Esboniwyd bod yna fuddsoddiad mewn dwy gronfa gyfun gellir eu prynu a'u gwerthu ar yr un gyfradd ar unrhyw ddiwrnod. Buddsoddiwyd £500,000 mewn cronfa eiddo sydd â gwasgariad bid/cynnig o 8%, yn arwain at golled untro ar y buddsoddiad hwn hyd yn hyn. Y bwriad yw cadw'r cronfeydd hyn i gyd am o leiaf 3-5 mlynedd er mwyn lleihau unrhyw enillion a cholledion cyfalaf net ac er mwyn casglu'r enillion incwm cyson.

Wrth gyfeirio at argymhellion yr adroddiad, adolygodd y Pwyllgor gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn hanner cyntaf 2019/20 fel sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac ystyron nhw a ddylid ystyried ymgorffori unrhyw newidiadau i'r broses i Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21.

7. Diweddariad a datblygiad Q2

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio'r adroddiad er mwyn ystyried digonolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol o fewn y Cyngor yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiadau archwilio a barnau wedi hynny a gyflwynwyd i'r 30^{ain} o Fedi 2019. Hefyd, i ystyried perfformiad yr Adran Archwilio Mewnol dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cyfeiriodd y Prif Archwilydd Mewnol at y farn ynglŷn ag Ysgol Gynradd Castle Park a nododd bod yr adroddiad terfynol ar gael, a'i fod wedi'i ddsbarthu i'r Prifathro yn ogystal â chrynodeb i'r Llywodraethwyr. Roedd y pryderon yn ymwneud â chofrestru diogelwch data, asesiadau risg am driphlyg ysgol ac argaeledd cofnodion ariannol a gweinyddol. Roedd yna ddau wendid

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Archwilio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at 2.00 pm

sylweddol, 21 gwendid canolraddol a 7 gwendid bach gyda 35 cryfder. Caiff manylion pellach eu cymryd i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Ymholodd Aelod ynglŷn â barnau uchel a chanolraddol anghymwys yn ymwneud â data ariannol a chanlyniad yng Ngwasanaethau Gofal Integredig. Esboniwyd bod y rhain yn ymwneud â dau hawliad grant Cefnogi Pobl, lle derbynnir incwm oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae angen ardystiad o Archwiliad Mewnol arnynt i wirio a yw disgwyliadau ariannol a chanlyniad wedi'u cyflawni. Mae'r dyddiadau cau'n wahanol am y ddau. Esboniwyd bod risg y data canlyniadau yn ymwneud ag anawsterau blaenorol wrth gael gafael ar y wybodaeth ofynnol. Cyrhaeddodd y grant amodau darparrydd y grant, ac o ganlyniad cafwyd y farn anghymwys.

Roedd aelodau'n hapus gyda'r adroddiad a phenderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr argymhellion:

- Bod y Pwyllgor yn nodi barnau'r archwiliad a gyflwynwyd.
- Bod y Pwyllgor yn nodi'r datblygiad a wnaed gan yr Adran tuag at gyrraedd Cynllun Archwilio Gweithredol 2019/20 a dangosyddion perfformiad yr Adran ar gymal 6 mis y flwyddyn ariannol.

8. Cyfrifon Archwiliedig Cronfa Degwm Cyngor Sir Fynwy

Ystyriwyd eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid, Cronfa Eglwys Cymru. Ni adroddwyd unrhyw fater sylweddol.

Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru taw adroddiad syml ydoedd. Cwblhawyd y datganiadau cyllid drafft yn gynnar a bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoddi adroddiad archwilio anghymwys ar ôl derbyn llythyr o gynrychioliad.

Nid oedd yna gamddatganiadau oedd heb eu cywiro.

Roedd y rheini bod angen eu hadrodd (rhwng £1000 distadl a deunydd £20,000) ar gael yn yr adroddiad.

Croesawyd cwestiynau:

Roedd y Rheolwr Cyllid, Cyllid Canolog, yn hapus gyda'r adroddiad â'i fod wedi'i gwblhau'n gynnar. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusen fel bo angen.

Datganodd y Cynghorydd Sir B. Strong diddordeb personol, diragfarn fel aelod o'r Panel.

Cadarnhawyd bod Cronfa Eglwys Cymru'n dilyn cyngor buddsoddi Arlingclose.

Nodwyd a rhoddwyd sylwadau gan y Cyngor ynglŷn â'r cyfrifon a'i archwiliad allanol.

9. ISA 260 neu Gyferth ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Ystyriwyd eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Archwilio held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at
2.00 pm**

10. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu cadarnhau fel cofnod manwl gywir.

11. I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel y 9fed o Ionawr 2020

The meeting ended at 3.10 pm